Mae dyddiad cau cystadlaethau gwaith cartref Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd yn prysur agosáu. Y dyddiad cau ar gyfer cystadlu yw 27 Tachwedd 2020. Mae rhestr testunau Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2021 yn fyw ar y wefan eisteddfodcaerdydd.cymru. Mae'r rheolau a'r amodau hefyd ar y wefan. Eleni mae gyda ni gystadlaethau barddoniaeth, rhyddiaith a ffotograffiaeth i bob categori oedran – ewch ati i greu!

Fel y soniom fis diwethaf, rydym am nodi'r diwrnod gyda rhywbeth eisteddfodol. Felly ein cais ni i chi yw i anfon eich lluniau a'ch fideos o Eisteddfod Caerdydd 2020 atom i ni greu cyflwyniad arbennig i'w ddangos ar y cyfryngau cymdeithasol ar 23 Ionawr 2021. Felly os oes gyda chi luniau da, neu fideos yr hoffech chi i ni gynnwys, yna anfonwch nhw at cyswllt@eisteddfodcaerdydd.cymru. Byddwn yn cymryd eich bod yn hapus i ni ddefnyddio unrhyw luniau neu fideos byddwch yn anfon atom.